

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/02473/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr, yn holi fy marn am ddeiseb sy'n galw ar y Llywodraeth i "*ailenwi 'Wales', gan ddefnyddio ei henw gwreiddiol, sef Cymru*", a hynny am mai "*enw a gafodd ei arosod ar Gymru yw 'Wales'. Cymru oedd yr enw gwreiddiol*".

Mae'r cwestiwn o ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar gyfer cyrff, nodweddion daearyddol ac enw'r wlad ei hun wedi dod i'r amlwg sawl gwaith dros y misoedd diwethaf, ac mae'r tueddiad yn hynod ddiddorol o safbwynt y Gymraeg.

Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi Cymraeg diwygiedig lle byddant ond yn defnyddio'r enw Cymraeg 'Cyngor Gwynedd' ymhob fformat wrth gyfeirio at y Cyngor. Ganol Tachwedd, cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hwythau eu bod wedi penderfynu defnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar gyfer Eryri a'r Wyddfa yn y dyfodol, gan bleidleisio o blaid cefnu ar y geiriau Snowdonia a Snowdon.

Mae'r enghreifftiau hyn ac eraill yn cyfleu bod awydd cryf mewn rhai cyd-destunau i osod y Gymraeg wrth galon bywyd cyhoeddus, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae canran uwch o siaradwyr Cymraeg. Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gymraeg, mae hyn wrth gwrs i'w groesawu.

Yn benodol, mae gwaith Eryri i roi blaenoriaeth i enwau daearyddol Cymraeg yn adlewyrchu'r awydd i warchod enwau at y dyfodol a sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu disodli. Mae hyn yn gorgyffwrdd â gwaith Llywodraeth Cymru o dan ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cytweithio i warchod enwau Cymraeg.

Rydyn ni fel Llywodraeth hefyd wedi cefnogi'r defnydd o enwau Cymraeg ar gyfer ein sefydliadau cenedlaethol, e.e. yn achos ein defnydd o "Senedd" yn unig mewn iaith bob dydd, yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. Yn fewnol hefyd, lle bo'n briodol rydym yn defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar adrannau, ac adwaenir Is-adran y Gymraeg bellach yn y ddwy iaith fel Is-adran Cymraeg 2050.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan nifer helaeth o'n trefi, pentrefi a dinasoedd enwau dwyieithog am eu bod yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Ac rydym wedi gweld pan gynigir newid un lythyren yn unig mewn enw tref, neu osod cysylltnod rhwng elfennau o'r enw, bod trigolion yn gallu bod wrthwynebus iawn i hynny, gan deimlo ymlyniad cryf at y ffurf neu'r enw sydd fwyaf cyfarwydd iddyn nhw.

Mae enw'r wlad ei hun, wrth gwrs, yn fater sy'n berthnasol ar raddfa llawer ehangach ac yn effeithio ar lawer mwy o bobl. Ein bwriad yw parhau i ddefnyddio Cymru a Wales ill dau, er mwyn cyfeirio at ein gwlad yn ei dwy iaith swyddogol, ac i barhau i wneud yn siŵr bo'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i defnyddio ar lefel gymunedol a chenedlaethol, gan adlewyrchu ein hargyhoeddiad bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language